

## PWYLLGOR ARDAL DWYFOR

12/9/16 (5.20PM – 7.20PM)

**Presennol:-** Y Cyngorydd John Brynmor Hughes (Cadeirydd)

Y Cynghorwyr: Stephen Churchman, Anwen Davies, Aled Evans, E. Selwyn Griffiths, Sian Wyn Hughes, Jason Humphreys, Aled Wyn Jones, Michael Sol Owen, Eirwyn Williams, Gruffydd Williams, Owain Williams ac R. H. Wyn Williams.

**Swyddogion:-** Arwel Ellis Jones (Uwch Reolwr Cefnogaeth Gorfforaethol) a Bethan Adams (Swyddog Cefnogi Aelodau).

Hefyd: Gwenan Ellis Jones (Cydllynydd Siarter Iaith) ar gyfer eitem 1 isod; Amanda Davies (Rheolwr Adfywio Cymunedol) ac Alys Lloyd Jones (Swyddog Adfywio Ardal Dwyfor) ar gyfer eitem 2 isod; Barry Davies (Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig) a Catrin Glyn (Swyddog Ecosystemau Morol Dros Dro) ar gyfer eitem 3 isod.

**Ymddiheuriadau:-** Y Cynghorwyr Alwyn Gruffydd, Peter Read, W. Gareth Roberts a Angela Ann Russell.

<b>1</b>	<b>Siarter Iaith</b>  Derbyniwyd cyflwyniad gan Gydlynnydd y Siarter Iaith.  Rhoddwyd cyfle i'r aelodau ofyn cwestiynau.	
	<b>Pwynt Gweithredu:</b> <ul style="list-style-type: none"><li>Gofyn i'r ysgolion penodol lle bo aelod yn Llywodraethwr a ddim yn derbyn gwybodaeth o ran gwe iaith yr ysgol i ddarparu'r wybodaeth.</li><li>Gofyn i'r Adran Addysg ddarparu gwybodaeth o ran yr ysgolion sydd wedi derbyn gwobr aur, arian ac efydd.</li></ul>	Aelodau  GEJ
<b>2</b>	<b>Rhaglen Waith y Gwasanaeth Adfywio Cymunedol</b>  Cyflwynodd y Rheolwr Adfywio Cymunedol raglen waith y Swyddog Adfywio Lleol. Manylodd Swyddog Adfywio Ardal Dwyfor ar brosiectau penodol. Rhannwyd copiâu o Adroddiad Blynnyddol Cist Gwynedd ar gyfer 2015/16 a oedd wedi ei gyhoeddi eisoes yn <i>Rhaeadr</i> .  Nodwyd diolch i'r cyn swyddogion a oedd wedi gadael y Cyngor yn dilyn arbedion effeithlonrwydd/toriadau am eu gwaith yng nghyswllt y cronfeydd.	
	<b>Pwyntiau Gweithredu:</b> <ul style="list-style-type: none"><li>Holi Grŵp Cynefin o ran eu bwriad yng nghyswllt gosod tai a fyddai'n rhan o ddatblygiad tai fforddiadwy</li></ul>	BA

	<p>bwriedig ar safle cyn Ysgol Lidiardau, Rhoshirwaun, sydd yn y broses o gael ei drosglwyddo i'w perchnogaeth;</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Derbyn diweddariad ymhen 6 mis.</li> </ul>	AD / ALIJ
3	<p><b>Ymgyrch Neifion</b></p> <p>Derbyniwyd cyflwyniad gan y Swyddog Ecosystemau Morol Dros Dro a'r Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig.</p> <p>Rhodddwyd cyfle i'r aelodau ofyn cwestiynau.</p> <p>Mynegwyd cefnogaeth i'r achrediad gan yr aelodau ac fe fynegwyd pryder o ran hawliau'r swyddogion i blismona'r arfordir pan fo unigolion ddim yn cydymffurfio â'r Côd Diogelwch Morol.</p>	
	<p>Pwyntiau Gweithredu:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Darparu copïau o'r côd morol i'r aelodau er mwyn iddynt allu eu harddangos/dosbarthu yn eu cymunedau;</li> <li>• Derbyn diweddariad o ran trafodaethau yng nghyswllt rheoli'r arfordir cyn y tymor nesaf gan ofyn i'r Pennaeth Economi a Chymuned a'r Aelod Cabinet Economi fod yn bresennol yn y cyfarfod.</li> </ul>	<p>CG</p> <p>BD/BA</p>